

CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWYD DROS 'ZOOM', NOS LUN 2il o DACHWEDD , 2020

PRESENNOL

Cyng. Eifion Williams (Cadeirydd), Cyng. Alun Morris, Cyng. John Owen, Cyng. Nerys Dobson, Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Anwen Jones, Delyth Algeri (clerc).

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r cyngor cymuned i'r cyfarfod dros 'Zoom'.

YMDDIHEURIADAU

Cyng. Hefin Martin, Cyng. Dylan Jones, Cyng. Austin Roberts

CADARNHAU'R COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 28ain o Fedi, 2020.

CEIR YN PARCIO AR Y FFORDD TYRPEG UCHAF GYFERBYN AR YSGOL

Cadeirydd wedi trafod y trefniant gyda'r Pennaeth i symud y conau o ochr y ffordd i rieni gael parcio i ollwng eu plant yn ddiogel wrth yr Ysgol.

Y clerc i gysylltu gyda'r Adran Priffyrdd i holi pryd fydd y llinellau melyn yn cael eu paentio ar y ffordd.

CERRIG AR Y LLOCHES BWS LLANDDOGED

Cadarnhawyd fod Mr Elwyn Williams wedi gosod y cerrig a gafwyd ei addurno gan ddisgyblion yr Ysgol Gynradd Llanddodged yn ystod y cyfnod clo o gwmpas y Lloches bws.

MAES PARCIO MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH, MAENAN

Y Cyngor wedi derbyn cwyn gan breswlydd Tŷ'r Ysgol, Maenan fod nifer o geir yn parcio yn y Maes Parcio Cadair Ifan Goch yn ystod y cyfnod clo 'Lockdown Covid 19' yn erbyn datganiad Llywodraeth Cymru i bawb gerdded o'i cartref ac nid drafeilio mewn ceir i leoliadau. Gan fod y Cyngor Cymuned yn berchen ar y maes parcio a gyda gweithredoedd am y safle daethpwyd i benderfyniad i gau'r maes parcio i ddiogelu trigolion ardal Maenan o'r afiechyd y 'Covid 19'.

Nododd y Clerc hefyd fod angen atgyweirio'r ffens yn y maes parcio gan fod rhai o'r cyhoedd yn mynd dros y ffens i'r goedwig ac yn creu llwybr anghyfreithlon drwy'r goedwig yn lle defnyddio mynedfa gywir drwy'r 'critch cratch' tu allan i'r maes parcio i'r llwybr cyhoeddus. Cyng. John Owen am fynd i fynnu i'r maes parcio i weld sut y gallwn atgyweirio'r ffens.

CYNNAL A CHADW

1. Coeden wedi dod i lawr ar llwybr cyhoeddus rhwng Merllyn Uchaf a Chapel Tyn Celyn Maenan.
2. Draen wedi blocio wrth Aneddle, Llanddodged.
3. Angen gwirio fod y bocsys halen wedi ei llenwi yn barod am y tywydd garw.
4. Draen wrth fynedfa i Maes Mawr wedi blocio angen ei lanhau.
5. Dwr yn hel wrth gyffordd y ffordd am Sarn Belmont o ffordd Efail Uchaf wrth Tan y Celyn Llanddodged.

FFORDD FRON FRANCIS, LLANDDOGED

Cyhoeddodd Cyng. Austin Roberts ei fod wedi derbyn e-bost gan breswlydd Tan y fron, ffordd Fron Francis fod yna broblem hefo'r draens gyli ar y ffordd. Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gyda swyddogion o Gyngor Conwy i drafod y mater.

LLIFOGYDD

Neges gan Cyng. Austin Roberts yn dilyn y tywydd garw yn ddiweddar cafwyd ychydig o lifogydd wrth Efail Uchaf Llanddodged. Ni chafwyd unrhyw ddifrod i'r tai Efail Uchaf y tro hyn ond fe orlifodd y nant i'r ffordd. Derbyniwyd gwybodaeth fod yna ceuffos wedi blocio ger Ty'n Coed, Maenan. Bydd Cyng Austin Roberts yn cyfeirio'r mater yma i'r Cyngor sir Conwy.

CYLLID

Cyfrif Cyfredol - £3,195.27

Cyfrif Cadw - £2,970.15

Arwyddwyd (Cadeirydd) Dyddiad